


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RPW Ar-lein – canllaw I gwsmeriaid

# Sut I ddefnyddio map rhyngweithiol fy fferm

# Sut i Ddefnyddio Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein

Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi cyfarwyddiadau cam wrth gam i chi ar sut i ddefnyddio RPW Ar-lein. Isod fe welwch y dudalen cynnwys sydd â dolenni hwylus y gellir clicio arnynt. Hefyd, mae yna ddolenni 'Yn ôl i'r Cynnwys' ar ddiwedd pob adran fel y gallwch symud yn hawdd o un cyfarwyddyd i'r llall. Oherwydd bod y ddogfen hon mor fanwl, fe'i bwriedir i'w defnyddio ar-lein yn bennaf.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu'r Canllaw hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg yn unol â gofynion Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Os oes angen copi o'r Canllaw hwn arnoch yn Saesneg, mae ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn https://www.llyw.cymru/mewngofnodi-ar-taliadau-gwledig-cymru-rpw-ar-lein trwy ddewis y botwm newid iaith ar frig y dudalen ac ailagor y ddogfen. Os ydych chi'n cael trafferth neu os na allwch gael mynediad at ein gwefan, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

## Cynnwys


RPW Ar-lein ..... 4

Tir ..... 4

Map Rhyngweithiol - Trosolwg ..... 4

Gweld Eich Map ..... 8

Clystyru ..... 8

Chwyddo i mewn ..... 10

Chwyddo allan ..... 13

Tremio ..... 16

Dewis Haenau ..... 18

Graddfa Arddangos Haenau ..... 20

Haen Lluniau o'r Awyr ..... 20

Haen Map ..... 20

Haen Nodweddion Parhaol ..... 21

Cynefin ..... 25

Safleoedd Dynodedig ..... 29

Haen Labeli Caeau ..... 29

Tabl Allwedd ..... 30

Eiconau Rhyngweithiol ..... 32

Chwyddo i ddaliad ..... 33
Offeryn Mesur ..... 34
Gosod pwyntiau ar y map rhyngweithiol ..... 36
Mesur un pwynt ..... 38
Mesur pwyntiau lluosog ..... 39
Mesur hydoedd ac arwynebeddau polygon ..... 41
Argraffu Fy Map ..... 43
Offeryn Targed ..... 45
Lawrlwytho Shapefiles ..... 45
Datrys Problemau ..... 49
Cwestiynau Cyffredin ..... 53
Dolenni Defnyddiol ..... 56


**Ymwadiad**

Pwrpas y canllaw hwn yw eich helpu i ddefnyddio gwasanaeth Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein. Mae'r Canllaw hwn wedi'i rannu'n adrannau sy'n cynnwys cyfarwyddiadau cam wrth gam manwl. Gan fod cyfleusterau Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein yn cael eu datblygu, bydd y Canllaw hwn yn newid o bryd i'w gilydd.

Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru
©Hawlfraint y Goron 2024

## RPW Ar-lein

### Tir




Ar hyn o bryd mae'r tab Tir yn cynnwys yr opsiynau canlynol:

- Map Rhyngweithiol
- Map y SAF
- Map Grant ar gyfer HWS
- Rheoli fy Nhir
- Rheoli fy CPH
- Ychwanegu CPH Newydd
- Mapiau

### Map Rhyngweithiol - Trosolwg

Gallwch chi ddefnyddio'r Map Rhyngweithiol i weld eich tir trwy eich cyfrif RPW Ar-lein. Mae'n dangos unrhyw Diroedd sydd wedi'u Cadw'n Naturiol ar y map yn ogystal ag unrhyw nodweddion parhaol ar eich daliad. Hefyd, fe allwch chi fesur nodweddion fel gwrychoedd neu waliau cerrig.

Er mwyn manteisio'n llawn ar y cyfleuster Map Rhyngweithiol, dylech chi ddefnyddio cyfrifiadur neu liniadur gydag un o'r porwyr rhyngrwyd canlynol:


- Microsoft Edge
- Google Chrome
- Mozilla Firefox

Mae'r rhan fwyaf o ffonau clyfar a dyfeisiau llechen sydd â systemau gweithredu Android neu Mac IOS yn gweithio hefyd.


Bydd angen y fersiwn ddiweddaraf o Adobe Reader arnoch hefyd er mwyn argraffu neu gadw copi o unrhyw fap PDF sy'n cael ei greu.

Mae dolen i'r fersiwn ddiweddaraf o Adobe Reader ar gael yn https://www.llyw.cymru/mewngofnodi-ar-taliadau-gwledig-cymru-rpw-ar-lein.

Pan fyddwch yn dewis 'Map Rhyngweithiol' o'r ddewislen Tir, fe welwch chi'r dudalen ganlynol:




Unwaith y bydd wedi'i llwytho, bydd eich tudalen Map Rhyngweithiol yn edrych yn debyg i hyn. Bydd eich daliad cyfan i'w weld yn ddiofyn.




Os yw'r bar graddfa yn dangos 1000m neu fwy pan fydd eich tudalen Map Rhyngweithiol wedi llwytho, bydd eich caeau'n cael eu grwpio gyda'i gilydd mewn clystyrau ac yn cael eu harddangos fel cylch coch.




Os yw'r bar graddfa yn dangos 1000m neu fwy, bydd y caeau'n cael eu grwpio gyda'i gilydd mewn clystyrau.

Ewch i dudalen 7 ar gyfer canllawiau ar glystyru.





Ar ochr chwith y dudalen, fe welwch chi flwch Chwilio




Gallwch ddefnyddio'r cyfleuster Chwilio i hidlo'ch caeau. Cofnodwch Gyfeirnod y Ddalen, Rhif y Cae neu Enw'r Cae ac wrth i chi deipio, bydd y system yn dechrau dod o hyd i'r cae rydych chi'n chwilio amdano. Er mwyn clirio'r chwiliad, rhaid i chi ddileu'r data a gofnodwyd yn y bar Chwilio.

Bydd rhestr o'r pum parsel tir cyntaf sy'n cyfateb yn cael ei dangos. Bydd y canlyniadau yn cael eu dangos mewn trefn esgynnol.

Os yw nifer y parseli tir yn y rhestr yn cynnwys mwy na phum sy'n cyfateb, bydd y neges hon yn dangos faint yn rhagor sydd wedi cyfateb i'r chwiliad.




Ar ôl cael ei ddewis, mae'r cae yn cael ei arddangos trwy ddefnyddio border glas golau.

Bydd crynodeb o'r cae yn cael ei arddangos ar gyfer y parsel tir a ddewiswyd. Bydd manylion y parsel tir yn cael eu harddangos mewn dau flwch ar yr ochr chwith.

## Gweld Eich Map


## Clystyru

Bydd y Map Rhyngweithiol yn agor ar faint llawn eich daliad. Os yw’r bar graddfa yn dangos 1000m neu fwy, bydd eich caeau yn cael eu grwpio gyda’i gilydd mewn clystyrau ac yn cael eu harddangos fel cylch coch.




Os yw'r bar graddfa yn dangos 1000m neu fwy, bydd y caeau’n cael eu grwpio gyda'i gilydd mewn clystyrau.


Bydd hyn hefyd yn digwydd os yw maint llawn eich daliad yn llai na 1000m a’ch bod yn chwyddo allan i bwynt lle mae’r bar graddfa yn fwy na hyn. Bydd nifer y cylchoedd coch sy’n cael eu defnyddio i ddangos y clystyrau yn lleihau wrth i chi chwyddo allan. Po fwyaf y byddwch chi’n chwyddo allan, bydd y clystyrau yn lleihau.




Pan fydd clystyrau'n dangos ar y map, bydd yr holl haenau eraill yn cael eu diffodd ac eithrio Llun o'r Awyr neu Haen Map a Nodweddion Parhaol.





Os ydych chi'n dewis un o'r clystyrau, bydd y map yn chwyddo i mewn i'r caeau ac yn troi ymlaen unrhyw haenau a oedd ymlaen o'r blaen (ar yr amod bod y raddfa yn briodol i'w harddangos - gweler Dewis Haenau ar dudalen 17 am arweiniad).




## Chwyddo i mewn


Mae pedwar dull gwahanol o chwyddo i mewn i'r Map Rhyngweithiol. Bydd y dull rydych chi'n ei ddefnyddio yn dibynnu ar beth rydych chi'n ceisio'i gyflawni.

1. Mae'n gyflym ac yn hawdd chwyddo i mewn ar un cae:




I gael cyfarwyddiadau ar sut i chwyddo allan, ewch i dudalen 13.

2. Os ydych chi'n dwbl-glicio botwm chwith eich llygoden ar y cae rydych chi am ei weld, bydd y system yn chwyddo i mewn yn raddol. Gweler yr enghreifftiau isod sy'n dangos chwyddo i mewn o faint llawn y daliad i un cae. Hefyd, trwy chwyddo i mewn fel hyn byddwch chi'n gallu gweld yr ardal o amgylch y cae sydd wedi'i ddewis.




Os ydych chi eisiau chwyddo i mewn i grŵp o gaeau, mae sawl ffordd o wneud hynny:

3. Os oes gennych chi lygoden sydd ag olwyn sgrolio, bydd yr olwyn sgrolio yn caniatáu i chi chwyddo i mewn.










Gallwch barhau i chwyddo i mewn trwy'r dull hwn nes eich bod wedi cyrraedd y maint o'ch dewis.

4. Ffordd arall o chwyddo i mewn yw defnyddio'r botwm Plws (+) ar y bar chwyddo.




Bydd clicio ar y botwm Plws (+) yn chwyddo eich map i mewn.





Bydd gwaelod eich map yn dangos graddfa'r map rydych chi wedi ei chwyddo. Wrth i chi chwyddo i mewn, bydd y raddfa'n addasu yn unol â hynny.

## Chwyddo allan

1. Y ffordd gyflymaf a hawsaf o chwyddo allan yw defnyddio'r botwm 'Chwyddo i'r daliad'.






Pan fydd y botwm ‘Chwyddo i’r daliad’ yn cael ei ddewis, bydd y system yn chwyddo allan i ddangos maint llawn eich daliad, a bydd eich map yn edrych fel hyn.




2. Os oes gennych chi lygoden sydd ag olwyn sgrolio, bydd yr olwyn sgrolio


yn caniatáu i chi chwyddo allan.




Gallwch barhau i chwyddo allan trwy’r dull hwn nes eich bod wedi cyrraedd y maint o’ch dewis.

3. Ffordd arall o chwyddo allan yw defnyddio’r botwm Minws (-) ar y bar chwyddo.







Bydd clicio ar y botwm Minws (-) yn chwyddo eich map allan




Bydd gwaelod eich map yn dangos graddfa’r map rydych chi wedi ei chwyddo. Wrth i chi chwyddo allan, bydd y raddfa’n addasu yn unol â hynny.


## Tremio

Mae ‘tremio’ yn cyfeirio at y weithred o symud delwedd o gwmpas er mwyn ei gweld o safbwyntiau gwahanol.


Er mwyn tremio’ch map, chwith-gliciwch ar y ddelwedd o’r map, a gan gadw’ch bys ar y botwm chwith, llusgwch eich llygoden i fyny, i lawr, i’r chwith neu i’r dde.

Er enghraifft: gweler Delwedd A isod, ac yna gweler Delwedd B.

## Delwedd A





## Delwedd B




## Dewis Haenau


Pan fyddwch yn agor eich Map Rhyngweithiol am y tro cyntaf, bydd y map yn agor yn ddiofyn ar yr haen Lluniau o’r Awyr, a bydd yr haen Nodweddion Parhaol yn bresennol.




Mae’r Map Rhyngweithiol yn eich galluogi i weld eich daliad ar haenau gwahanol. Mae’r gair ‘haenau’ yn ddisgrifiad perffaith yn y fan yma, gan eu bod yn haenau o wybodaeth wahanol sydd wedi’u gosod ar ben ei gilydd ar un ddelwedd sylfaenol. Bydd troi haenau gwahanol ymlaen ac i ffwrdd yn creu effeithiau gwahanol.




Os yw'r opsiwn 'Ymlaen' wedi'i ddewis, bydd yn cael ei liwio'n wyrdd




Yn caniatáu i chi newid golwg eich map

Yn caniatáu i chi newid golwg eich map

Yn caniatáu i chi weld gwybodaeth am Nodweddion Parhaol

Yn caniatáu i chi weld gwybodaeth am gynefin

Yn caniatáu i chi newid Safleoedd Dynodedig o fewn eich daliad

Yn caniatáu i chi weld Tir sydd wedi'i Gadw'n Naturiol ar eich daliad

Yn caniatáu i chi weld Labeli Cae ar eich daliad

Bydd y map yn chwyddo'n awtomatig i'r raddfa ofynnol pan fydd wedi'i gynnau

Os yw'r botwm 'Wedi diffodd' wedi'i ddewis, bydd yn cael ei liwio'n llwyd


## Graddfa Arddangos Haenau

Dim ond ar neu islaw lefel benodol o chwyddo y mae modd gweld nifer o haenau. Gweler y tabl isod:

| Haen | Graddfa sy'n cael ei harddangos ar y bar graddfa |
|---|---|
| Lluniau o'r Awyr | Ar bob graddfa |
| Haen Map | Ar bob graddfa |
| Nodweddion Parhaol | 500m ac yn agosach |
| Cynefin | 500m ac yn agosach |
| Safleoedd Dynodedig | 500m ac yn agosach |
| Ardaloedd Ffocws Ecolegol | 500m ac yn agosach |
| Labeli Cae | 50m ac yn agosach |


## Haen Lluniau o'r Awyr


Pan fydd y blwch 'Gweld Opsiynau' yn cael ei fwyhau, byddwch yn gallu dewis yr haen lluniau o'r awyr. Wrth edrych ar y map rhyngweithiol bydd yr haen hon wedi'i throi ymlaen yn ddiofyn.




## Haen Map


Os ydych chi'n troi'r 'Haen Map' 'Ymlaen', bydd y system yn tynnu'r haen lluniau o'r awyr. Os yw'r haen hon yn cael ei diffodd, bydd y system yn ail-gyflwyno'r haen lluniau o'r awyr yn awtomatig.





## Haen Nodweddion Parhaol

Nodweddion parhaol yw ardaloedd o fewn parsel tir sydd ddim yn newid bob blwyddyn fel arfer. Mae nodweddion parhaol yn cael eu mapio o fewn parsel tir trwy ddefnyddio Ffurflen Cynnal Caeau. Mae'r haen hon yn gyfleus iawn wrth greu mapiau sydd i'w defnyddio fel mapiau braslunio neu ar gyfer cyflwyno ffurflenni Cynnal Caeau.




Os yw golwg maint llawn eich daliad yn 500m neu'n agosach, mae'r haen Nodweddion Parhaol ymlaen yn ddiofyn pan fyddwch chi'n gweld eich map rhyngweithiol am y tro cyntaf. Os yw lefel y chwyddo yn fwy na hyn, pan fyddwch chi'n troi'r haen ymlaen, bydd y map yn chwyddo yn awtomatig i'r lefel chwyddo sydd ei hangen.

Ar hyn o bryd, mae 5 dangosydd nodweddion parhaol gwahanol yn y Map Rhyngweithiol.





ZZ98 – Coed – coed unigol, boncyffion/bonion yn cael eu dangos gan ddelwedd fach o goeden



ZZ40 ac YY41 – Sgri/brigiadau craig/clogfeini/tywod – mewn grwpiau ac wedi'u gwasgaru, yn cael eu dangos gan ddotiau coch




Bydd y rhan fwyaf o Nodweddion Parhaol* yn cael eu dangos mewn llwyd gyda chroeslinellu coch



* ac eithrio ZZ20, YY21, ZZ40, YY41, ZZ22, YY41 a ZZ98

ZZ22 ac YY41 – Prysg/eithin/mieri – mewn grwpiau ac wedi'u gwasgaru, yn cael eu dangos gan y ddelwedd werdd isod



ZZ20 ac YY21 – Rhedyn – mewn grwpiau ac wedi'i wasgaru, yn cael ei ddangos gan y ddelwedd frown isod



**Nodweddion**

| Cod | Enw | Arwynebedd (ha) |
|---|---|---|
| ZZ31 | Afonydd a Nentydd | 0.16 |
| ZZ11 | Coetir - llydanddail - grŵp | 0.44 |
| YY16 | Coetir - boncyffion | 0.01 |


Os oes gennych chi gae â mwy nag un nodwedd barhaol ynddo, gallwch chwyddo i mewn i'r nodwedd trwy glicio ar yr eicon llygad

Dyma'r codau presennol ar gyfer nodweddion parhaol:


| **Cod Cnwd** | **Disgrifiad o'r Cnwd/Tir** | **A yw'n cael ei ddangos ar y map?** |
|---|---|---|
| ZZ89 | Adeiladau/buarthau | Ydy – Croeslinellu coch |
| ZZ20 | Rhedyn – grŵp | Ydy – Delwedd frown |
| YY21 | Rhedyn – wedi'i wasgaru | Ydy – Delwedd frown |
| ZZ92 | Arwynebau solet | Ydy – Croeslinellu coch |
| ZZ30 | Pyllau dŵr | Ydy – Croeslinellu coch |
| ZZ31 | Afonydd a nentydd | Ydy – Croeslinellu coch |
| ZZ94 | Ffyrdd | Ydy – Croeslinellu coch |
| ZZ40 | Sgri/brigiadau craig/clogfeini/tywod – grŵp | Ydy – Dotiau coch |
| YY41 | Sgri/brigiadau craig/clogfeini/tywod – wedi'u gwasgaru | Ydy – Dotiau coch |
| ZZ22 | Prysg/eithin/mieri – grŵp | Ydy – Delwedd werdd |
| YY41 | Prysg/eithin/mieri – wedi'u gwasgaru | Ydy – Delwedd werdd |
| ZZ97 | Traciau – nad ydynt yn cael eu pori | Ydy – Croeslinellu coch |
| ZZ98 | Coed – unigol, boncyffion/bonion | Ydy – Delwedd o goeden |
| NO1 | Gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud ag amaethyddiaeth | Ydy – Croeslinellu coch |
| TR2 | Di-stoc – coetir – conwydd (gan gynnwys coed Nadolig) | Ydy – Croeslinellu coch |
| WS1 | Di-stoc – coetir – llydanddail | Ydy – Croeslinellu coch |

## Cynefin

Bydd yr haen hon yn caniatáu ichi weld y cynefinoedd sydd ar eich parseli.




I weld manylion cynefinoedd ar gyfer parsel gallwch chwilio am barsel neu glicio ar barsel ar y map i weld y tab Cynefin




Bydd statws yn cael ei ddynodi i bob parsel ar y map, dyma'r statysau:

- Cadarnhawyd – adolygwyd y cynefin a ddangosir ar y map fel rhan o Gadarnhau Data 2024 ac mae’r mapio wedi’i gadarnhau gan RPW.

- Cyflwynwyd – adolygwyd y cynefin a ddangosir ar y map fel rhan o Gadarhau Data 2024 ac mae’n adlewyrchu’r mapio ar ôl cwblhau’r ffurflen, nid yw RPW wedi cadarnhau unrhyw newidiadau eto.

- Heb ei adolygu – Nid yw’r cynefin a ddangosir ar y map wedi cael ei adolygu fel rhan o Gadarnhau Data 2024.

- Yn yr arfaeth – Mae newidiadau yn yr arfaeth ar gyfer y parsel, er enghraifft mae cais Rheoli Fy Nhir wedi ei gyflwyno

Os nad ydych wedi cyflwyno ffurflen Cadarnhau Data 2024 neu os nad ydych wedi adolygu parsel ar y ffurflen byddwn yn cyflwyno cynefin ar bob parsel::

- sydd wedi ei nodi drwy haenau cynefin presennol fel y nodwyd gan fapiau a gyhoeddwyd ar ‘MapDataCymru’
- a oedd yn flaenorol o dan opsiwn cynefin mewn contract Glastir Sylfaenol a/neu gontract Glastir Uwch


Bydd hyn yn cynnwys safleoedd dynodedig sy'n fwy na 0.01 hectar a chynefinoedd coetir a gefnogwyd yn flaenorol o dan Gynllun 2024, lle bo hynny'n berthnasol.

Bydd modd gweld ardal a dosbarthiad pob math o gynefin o fewn y parsel. Mae dosbarthiad y cynefinoedd yn unol â’r ffurflen Cadarnhau Data:

Glaswelltir Sych Lled-naturiol wedi'i Amgáu (yn cael ei reoli fel porfa neu weirglodd)
Gwlypdir wedi'i Amgáu a Glaswelltir Corsiog
Rhos yr Arfordir a Rhos Llawr Gwlad
Morfa Heli
Twyni Tywod Arfordirol a Thraethau Graean
Cynefinoedd Agored yr Ucheldir (gan gynnwys clytwaith o rosdir, mawnogydd a glaswelltiroedd eang)
Rhedyn Trwchus
Perllannau Traddodiadol (cynefin coediog)
Prysgwydd (cynefin coediog)
Coed Pori (cynefin coediog)
Coetiroedd sy’n bodoli eisoes o dan Gynllun Cynefin Cymru 2024





Fel arall, gallwch glicio ar gynefin ar y map er mwyn ei chwyddo. Bydd y dosbarthiad a’r ardal ar gyfer y cynefin wedi eu hamlinellu mewn glas yn y tab Cynefinoedd.




## Safleoedd Dynodedig

Bydd yr haen hon yn caniatáu i chi weld Safleoedd Dynodedig ar y map.





## Haen Labeli Caeau

Bydd yr haen hon yn caniatáu i chi weld y Cyfeirnodau Dalen a'r Rhifau Caeau ar gyfer eich parseli.



Dim ond ar neu islaw lefel chwyddo o 50m neu'n agosach y gallwch chi weld yr haen hon. Os yw'r lefel chwyddo yn fwy na hyn, wrth i chi droi'r haen ymlaen, bydd y map yn chwyddo'n awtomatig i'r lefel chwyddo ofynnol.
















## Tabl Allwedd

Pwrpas y tabl allwedd hwn yw darparu delweddau o ardaloedd gwahanol mewn Map Rhyngweithiol y gallwch chi gyfeirio atynt.

| Haen | Lliw Sylfaen | Golwg o'r Awyr (AP) Enghreifftiol | Golwg MM Enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Haen MasterMap (MM) OS | Nodweddion Dŵr Uchel: Glas<br>Pob nodwedd arall: Llwyd<br>Didreiddedd: 100% | Amherthnasol |   |


| | | | |
|---|---|---|---|
| Haen Lluniau o’r Awyr (AP) | Didreiddedd: 100% |  | Amherthnasol |
| Bydd Parseli Tir yn cael eu hamlinellu gan ffiniau coch er mwyn eu hadnabod yn hawdd | Border: Coch<br>Llenwad: Dim (golwg AP) / Melyn (golwg MM)<br>Didreiddedd: 60% |  |  |
| Bydd Parseli Tir sydd wedi’u dewis yn cael eu hamlinellu gan forder glas | Border: Glas<br>Llenwad: Dim<br>Didreiddedd: 100% |  |  |
| Rhifau/Labeli Parseli Tir | Border: Amherthnasol<br>Cefndir: Gwyrdd Golau (golwg AP yn unig)<br>Didreiddedd: 60% |  |  |
| Bydd y rhan fwyaf o Nodweddion Parhaol* yn cael eu dangos gan groeslinellu coch<br><br>*ac eithrio ZZ20, YY21, ZZ40, YY41, ZZ22, YY41 a ZZ98 | Border: Glas<br>Llenwad: Croeslinellu Coch<br>Didreidded d: 60% |  |  |
| ZZ40 ac YY41 – Sgri/brigiadau craig/clogfeini/tywod – mewn grwpiau ac wedi’u gwasgaru, yn cael eu dangos gan ddotiau coch | Didreiddedd: 60% |  |  |
| ZZ98 – Coed – unigol, boncyffion/bonion yn cael eu dangos gan ddelwedd o goeden fach | Didreiddedd: 60% |  |  |
| ZZ22 ac YY41 – Prysg/eithin/mieri - mewn grwpiau ac wedi’u gwasgaru, yn cael eu dangos gan y ddelwedd werdd isod | Didreiddedd: 60% |  |  |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ZZ20 ac YY21 – Rhedyn - mewn grwpiau ac wedi'i wasgaru yn cael ei ddangos gan y ddelwedd frown isod | Didreiddedd: 60% |  |  |
| Haen Cynefin | Border: Glas tywyll<br>Cefndir: Pinc |  |  |
| Haen Safleoedd Dynodedig | Border: Gwyn<br>Cefndir: Gwyn |  | Amh |


## Eiconau Rhyngweithiol

Gallwch chi ddewis un o bum botwm wrth edrych ar eich map rhyngweithiol. Maent yn cael eu dangos fel eiconau ger brig y map, wrth ymyl y bar chwilio.




**Chwyddo i ddaliad** – bydd yn chwyddo allan i ddangos maint llawn eich daliad




**Offeryn Mesur** – bydd yn eich galluogi i fesur hydoedd ac arwynebeddau



**Argraffu fy Map** – bydd yn eich galluogi i argraffu'r ddelwedd ar y sgrin



**Offeryn Targed** – bydd yn eich galluogi i ddewis parsel tir ar y map




**Lawrlwytho Shapefiles** – bydd yn eich galluogi i lawrlwytho shapefiles

## Chwyddo i ddaliad

Bydd y botwm hwn yn caniatáu i chi weld maint llawn eich daliad.

Cadwch eich cyrchwr dros y botwm oren. Bydd blwch naid yn dweud wrthych y bydd y botwm hwn yn 'Chwyddo ar y daliad'.






Os byddwch yn gwasgu'r botwm hwn, bydd y map yn dangos maint llawn eich daliad.


## Offeryn Mesur

Bydd y botwm hwn yn caniatáu i chi fesur hydoedd ac arwynebeddau mewn m, km, $m^2$ neu ha fel sy’n briodol. Mae hwn yn offeryn defnyddiol os ydych chi’n ystyried ychwanegu nodwedd barhaol at barsel tir. Gallwch ddefnyddio’r offeryn hwn i fesur un hyd, sawl hyd neu hyd ac arwynebedd polygon. Gallwch ei ddefnyddio ar unrhyw raddfa ond byddai’n fwyaf defnyddiol pan fydd y daliad wedi’i chwyddo i mewn. Dim ond un mesuriad y gallwch chi ei wneud ar y tro, felly os ydych chi’n dymuno gwneud mwy nag un mesuriad ar eich map, bydd angen eu gwneud ar wahân. Os ydych chi’n cychwyn mesuriad newydd, bydd unrhyw linellau neu bolygonau sydd eisoes wedi’u mesur yn cael eu clirio o’r sgrin.

Cadwch gyrchwr eich llygoden dros y botwm llwyd hwn. Bydd blwch naid yn dweud wrthych y bydd y botwm hwn yn 'Toglwch yr erfyn mesur’. Rhaid dewis y botwm er mwyn troi'r offeryn mesur ymlaen.




Chwilio...
Gweld Opsiynau
+
−
Bydd neges yn ymddangos ar waelod y sgrin pan fydd yr offeryn mesur yn cael ei ddefnyddio.
200 m
1000 ft
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024. A
Limited 2024. Caniateir defnyddio'r data hwn yn unol
berthnasol ar 15/08/2024.
Rydych wrthi'n defnyddio'r erfyn mesur. Pwyswch ar fotwm yr erfyn mesur eto i stopio.



Rydych wrthi'n defnyddio'r erfyn mesur. Pwyswch ar fotwm yr erfyn mesur eto i stopio.





## Gosod pwyntiau ar y map rhyngweithiol

Mae dwy ffordd o osod pwynt ar y map:


1. Y ffordd hawsaf o osod pwynt ar y map yw trwy ddefnyddio botwm chwith y llygoden




2. Cadw eich bys ar y botwm shifft a chlicio ar fotwm chwith y llygoden (chwyddo awtomatig).

Pan fydd y pwynt wedi’i osod trwy bwyso’r botwm shifft a chlicio botwm chwith y llygoden, bydd y map yn chwyddo’n awtomatig yn agosach at le mae’r pwynt wedi’i osod.








## Mesur un pwynt

Fe allwch chi fesur un hyd ar y map. Gallwch chi ddefnyddio un o ddau ddull (gweler tudalen 37-38) er mwyn gosod pwynt, ond rhaid i chi ddwbl-glicio botwm y llygoden er mwyn gorffen gosod y pwynt ar gyfer mesur.





Unwaith rydych chi wedi dwbl-glicio botwm chwith y llygoden, ni fydd symud y cyrchwr yn arwain at greu llinell, ond bydd yr offeryn mesur yn parhau i fod yn weithredol nes iddo gael ei ddiffodd. Pan gaiff yr offeryn mesur ei ddiffodd, bydd y llinell sydd wedi’i mesur yn cael ei chlirio o’r sgrin.


Os ydych chi eisiau argraffu’r map gyda’r mesuriad cyn diffodd yr offeryn mesur, neu cyn dechrau mesuriad newydd, gweler tudalen 42 ar gyfer cyfarwyddiadau ar argraffu.

## Mesur pwyntiau lluosog

Fe allwch chi fesur llinellau lluosog ar eich map rhyngweithiol hefyd. Rhaid i’r llinellau hyn gael eu cysylltu gan y pwyntiau sydd wedi’u gosod ar y map.

Y ffordd hawsaf o wneud hyn yw trwy glicio botwm chwith y llygoden i osod y pwyntiau ar y map ac yna dwbl-glicio’r botwm pan fyddwch chi wedi gosod y pwynt terfynol ar gyfer mesur.


Gallwch chi ddechrau mesur trwy glicio botwm chwith y llygoden yn y lleoliad rydych chi eisiau cychwyn.
Gallwch chi symud y cyrchwr trwy lusgo'r llygoden i'r lleoliad gofynnol. Bydd y symbol glas yn dilyn y cyrchwr nes bod y pwynt nesaf yn cael ei osod.
Yna gallwch chi osod y pwynt nesaf yn y lleoliad gofynnol trwy glicio botwm chwith y llygoden. Bydd y blwch deialog yn dangos hyd bresennol y llinellau sydd wedi'u creu mewn unedau metrig priodol.
Gweld Opsiynau
3.04km
500 m
2000 ft
E: 299672 - N: 254920
Rydych wrthi'n defnyddio'r erfyn mesur.
fotwm yr erfyn mesur eto i stopio.



Chwilio...
Gweld Opsiynau
8.27km
Yna gallwch chi osod y pwynt nesaf yn y lleoliad gofynnol trwy glicio botwm chwith y llygoden. Bydd y blwch deialog yn dangos hyd gronnol y llinellau sydd wedi'u creu mewn unedau metrig priodol.
500 m
2000 ft
Rydych wrthi'n defnyddio'r erfyn mesur. Pwyswch ar fotwm yr erfyn mesur eto i stopio.


Gallwch chi osod pwyntiau lluosog ar y map rhyngweithiol a bydd y blwch deialog yn parhau i arddangos hyd gronnol y llinellau sydd wedi'u creu.


Wrth osod y pwynt olaf, mae'n bwysig dwbl-glicio botwm y llygoden er mwyn osgoi gosod unrhyw bwyntiau eraill.

## Mesur hydoedd ac arwynebeddau polygon


Mae'r map rhyngweithiol yn caniatáu i chi fesur hyd ac arwynebedd polygon. Polygon yw siâp sy'n cael ei greu gan ddefnyddio'r offeryn mesur, ac ni fydd yn gyflawn nes bod pob un o'r pwyntiau wedi'u gosod a'u cysylltu.






Os ydych chi’n creu arwynebedd gyda llinellau sy’n croestorri (gorgyffwrdd) yn ddamweiniol wrth fesur, fe welwch neges gwall ac ni fydd unrhyw arwynebedd yn cael ei gyfrifo.








## Argraffu Fy Map

Bydd y botwm Argraffu Fy Map yn eich galluogi i argraffu delwedd o’r union beth sy’n ymddangos ar eich sgrin. Gallai gynnwys maint llawn eich daliad neu un cae yn unig, gyda haenau wedi’u troi ymlaen neu eu diffodd (Mae’r delweddau enghreifftiol isod wedi’u tynnu gan ddefnyddio Microsoft Edge. Gweler yr adran Datrys Problemau ar dudalen 42 am arweiniad ar argraffu wrth ddefnyddio porwyr gwahanol).

Cadwch gyrchwr y llygoden dros y eicon argraffydd. Bydd blwch naid yn arddangos 'Argraffu fy Map'.





Pan fyddwch chi'n clicio ar y botwm hwn, bydd rhagolwg argraffu yn ymddangos mewn ffenestr newydd, fel nad yw'n disodli RPW Ar-lein. Yna, mae gennych chi'r opsiwn i argraffu neu ganslo.



## Offeryn Targed

Cliciwch ar yr offeryn targed, yna dewiswch barsel tir ar y map.





## Lawrlwytho Shapefiles


Mae swyddogaeth newydd wedi'i hychwanegu at y Map Rhyngweithiol ar RPW Ar-lein. Bydd y swyddogaeth hon yn caniatáu ichi lawrlwytho data Shapefile fel .zipfile ar gyfer y tir sydd ar gael i chi.

Mae'r haen gyntaf yn cynnwys manylion y System Adnabod Parseli Tir (LPIS) ar gyfer pob parsel tir o dan eich daliad; mae'r ail haen yn cynnwys data Nodwedd Parhaol y daliad.

I lawrlwytho Shapefile, cliciwch ar y tab 'Tir' a dewiswch y **Map Rhyngweithiol** fel y dangosir yn y print sgrin isod.





Bydd y Map Rhyngweithiol yn agor fel y dangosir yn y sgrin isod.





Unwaith y bydd sgrin IMV wedi llwytho, wrth ymyl y bar chwilio, fe welwch gyfres o eiconau. Hofran dros bob eicon a dewiswch **'Lawrlwytho Shapefiles'**.




Ar ôl dewis **'Lawrlwytho Shapefiles'**, bydd neges Telerau ac Amodau yn cael ei harddangos ar y sgrin. Sicrhewch eich bod wedi darllen a deall y Telerau ac Amodau cyn cadarnhau eich bod yn cytuno.




Ar ôl cadarnhau, bydd y botwm Lawrlwytho yn dod yn brint trwm ac ar gael i chi ei wasgu. Cliciwch Lawrlwytho. Bydd 2 x Shapefile.zips yn cael eu creu ac yn ymddangos yn y ffeil lawrlwythiadau. Dylent hefyd ymddangos mewn blwch naid yng nghornel dde uchaf eich sgrin.



Bydd shapefile.zip yr LPIS yn cynnwys y data canlynol:

Nod adnabod Parseli tir

OSSHEET

NGFIELD

Maint y Cae

Enw Cae

Statws Daliadaeth

Bydd y Shapefile.zip Nodwedd Barhaol yn cynnwys y canlynol:

Nod Adnabod Nodwedd Barhaol


Cod Nodwedd Barhaol

Arwynebedd Nodwedd Barhaol

Nod Adnabod Parsel Tir

Isspatial

Cofiwch, efallai y bydd y porwr rhyngrwyd yn dewis blocio lawrlwythiadau lluosog a gallai ffenestr newydd ymddangos ar eich sgrin fel y dangosir yn y sgrin isod. Dewiswch 'Parhau i ganiatáu lawrlwythiadau awtomatig o ffeiliau lluosog' a gwasgu gwnaed. Yna dylai eich Shapefile .zips ymddangos.




Unwaith y bydd y ffeiliau zip wedi'u creu, gallwch lwytho'r data Shapefile i'ch System Gwasanaethau GI eich hun.


# Datrys Problemau

Argraffu Mapiau – prosesau ar gyfer porwyr sydd wedi'u cefnogi.

## Microsoft Edge


Wrth argraffu o Fap Rhyngweithiol trwy ddefnyddio Microsoft Edge, bydd eich blwch 'Dewisiadau Cadw' yn ymddangos ar y sgrin, wrth ddewis 'Cadw ar ffurf PDF' yn y gwymplen Argraffydd.

Gallwch lywio i'ch lleoliad dewisol er mwyn cadw'r map.





## Google Chrome

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gosodiad lawrlwytho Google Chrome wedi'i ragosod yn awtomatig i gadw copi o'r hyn rydych chi wedi dewis ei lawrlwytho i'ch ffolder ddiofyn. Pan fydd y gosodiad hwn yn cael ei actifadu, bydd y blwch lawrlwytho sy'n agor eich Map PDF yn ymddangos ar waelod chwith ffenestr eich porwr. Pan fyddwch yn dewis eich Map PDF, bydd yn cael ei gadw yn awtomatig a bydd eich map yn agor i chi.




Os na fydd y gosodiad hwn yn cael ei actifadu, bydd blwch 'Save As' yn ymddangos yn gofyn i chi gadw'r hyn sydd wedi'i lawrlwytho. Yna bydd angen i chi lywio i'r lleoliad cadw rydych chi wedi'i ddewis i'w agor.






Os ydych chi eisiau newid eich gosodiadau, agorwch y gwymplen gosodiadau.


Dewiswch 'Settings' ac yna 'Show Advanced settings…'




Sgroliwch i lawr i 'Downloads' a gweld a oes tic yn y blwch wrth ymyl ''Ask where to save each file before downloading'. Os nad oes tic yn y blwch, bydd eich lawrlwythiadau yn cael eu cadw yn awtomatig; os oes tic yn y blwch, bydd yn rhaid i chi gadw lawrlwythiadau eich hun cyn eu hagor.


**Mozilla Firefox**

Wrth argraffu o Fap Rhyngweithiol trwy ddefnyddio porwr Mozilla Firefox, bydd eich blwch lawrlwytho yn ymddangos ar y sgrin i chi.




Os ydych chi'n dewis "Open with" ac yna "OK" yna bydd y ffeil yn agor mewn ffenestr newydd (cyn belled â bod eich cyfrifiadur/dyfais yn bodloni'r holl ofynion system ar gyfer Map Rhyngweithiol).

**NODER:** NI fydd hyn cadw'r ffeil yn awtomatig ar eich cyfrifiadur.




Os ydych chi'n dewis "Save File" ac yna "OK" bydd y ffeil yn cael ei chadw yn y ffolder Mozilla Firefox Download.

Yna dylech chi weld y ffenestr naid isod yn ymddangos ar waelod ochr dde eich sgrin i gadarnhau bod y broses lawrlwytho wedi'i chwblhau.



## Cwestiynau Cyffredin

1. **Pan fydda i'n agor Map Rhyngweithiol, mae'r ddelwedd o'r awyr gychwynnol yn cynnwys ymyl gwyn sy'n diflannu pan fydda i'n newid i olwg Master Map. Pam?**

Os ydych chi'n byw wrth ymyl y môr neu ger ffin Cymru, fe welwch le nad oes unrhyw luniau o'r awyr, bydd gofod gwyn yn unig.

Dim ond lluniau o'r awyr ar gyfer Cymru mae Llywodraeth Cymru yn eu cadw; felly, dim ond yr haen lluniau o'r awyr ar gyfer Cymru fydd Map Rhyngweithiol yn ei dangos. O ganlyniad, ni fydd delweddau lluniau o'r awyr ar gael ar gyfer y môr ac ochr draw ffin Cymru. Mae'r haen Master Map yn wahanol a bydd yn dangos tir dros y ffin a'r môr.

Os **nad** ydych chi'n byw wrth ymyl y môr neu ger ffin Cymru a bod ardaloedd gwyn yn ymddangos, rhowch gynnig ar adnewyddu'ch tudalen yn gyntaf. Os nad yw hynny'n gweithio, ceisiwch gau'r porwr a mewngofnodi i'ch cyfrif RPW Ar-lein eto.

Os ydych chi'n parhau i gael problemau, cysylltwch â'r Ddesg Gymorth Ar-lein ar 0300 062 5004 neu anfonwch neges drwy RPW Ar-lein a byddwn yn ceisio eich helpu.

2. **Pan fydda i'n dewis fy nghaeau, nid yw'r ffin las yn ymddangos o'u cwmpas, pam?**

Mae'n debygol eich bod yn symud o gae i gae yn rhy gyflym. Pan fyddwch yn dewis cae ar y map mae'n rhaid i'r holl wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Rhestr o Gaeau adnewyddu ac ail-lwytho ar gyfer y parsel tir newydd a ddewiswyd. Yn dibynnu ar gyflymder a chryfder eich gwasanaeth band eang, bydd yr amser y mae'r system yn ei gymryd i wneud y newidiadau hyn yn amrywio.

Ceisiwch oedi wrth newid rhwng caeau.

Os ydych chi'n parhau i gael problemau, cysylltwch â'r Ddesg Gymorth Ar-lein ar 0300 062 5004 neu anfonwch neges drwy RPW Ar-lein a byddwn yn ceisio eich helpu.

3. **Rwy'n ceisio creu map i nodi newidiadau ar gyfer ffurflen Cynnal Caeau, ond mae croeslinellu coch yn ymddangos ar y cae ar gyfer nodweddion parhaol. Sut ydw i'n diffodd yr haen nodweddion parhaol?**

Ar ochr dde uchaf eich map fe welwch chi flwch opsiynau. Wrth fwyhau'r blwch hwn fe welwch fod opsiwn ar gael i droi'r haen hon ymlaen neu ei diffodd. Bydd yr haen hon yn cael ei throi ymlaen yn ddiofyn pan fyddwch chi'n mewngofnodi ac yn gweld

eich Map Rhyngweithiol.

Os ydych chi'n parhau i gael problemau, cysylltwch â'r Ddesg Gymorth Ar-lein ar 0300 062 5004 neu anfonwch neges drwy RPW Ar-lein a byddwn yn ceisio eich helpu.

### 4. Pan fydda i'n mewngofnodi i RPW Ar-lein ac yn dewis Map Rhyngweithiol, pam nad yw'r rhestr o gaeau i'w gweld ar ochr chwith y sgrin?

Mae'r rhestr o gaeau wedi cael ei disodli gan far chwilio. Fel hyn gallwch chwilio'ch caeau trwy nodi cyfeirnod y ddalen, rhif y cae neu enw'r cae. Wrth i chi deipio, bydd y system yn dechrau dod o hyd i'r cae rydych chi'n chwilio amdano. Fel arall, os hoffech chi weld y cyfeirnodau dalen a'r rhifau caeau ar gyfer eich holl gaeau, fe allwch wneud hynny trwy fwyhau'r blwch 'Gweld Opsiynau' yng nghornel dde uchaf eich map a throi'r haen 'Label Cae' ymlaen.

Os ydych chi'n parhau i gael problemau, cysylltwch â'r Ddesg Gymorth Ar-lein ar 0300 062 5004 neu anfonwch neges drwy RPW Ar-lein a byddwn yn ceisio eich helpu.

### 5. Sut ydw i'n gwybod pa haenau sydd wedi'u troi ymlaen?

Bydd y blwch 'Gweld Opsiynau' yng nghornel dde uchaf y sgrin yn dangos pa haenau sydd wedi'u troi ymlaen ar hyn o bryd. Bydd yr haenau Lluniau o'r Awyr a Nodweddion Parhaol yn cael eu troi ymlaen yn ddiofyn pan fyddwch chi'n mewngofnodi ac yn gweld eich Map Rhyngweithiol.

Os ydych chi'n parhau i gael problemau, cysylltwch â'r Ddesg Gymorth Ar-lein ar 0300 062 5004 neu anfonwch neges drwy RPW Ar-lein a byddwn yn ceisio eich helpu.

### 6. Pan fydda i'n dewis 'Argraffu Fy Map', a fydd yr wybodaeth am y cae ar yr ochr chwith yn cael ei hargraffu hefyd?

Pan fyddwch yn dewis 'Argraffu Fy Map', bydd y dudalen yn cynnwys yr olwg bresennol o'r map fel y mae'n cael ei harddangos ar y sgrin; os oes blwch gwybodaeth am y cae ar ochr chwith y sgrin, **ni** fydd yn cael ei argraffu.

Os ydych chi'n parhau i gael problemau, cysylltwch â'r Ddesg Gymorth Ar-lein ar 0300 062 5004 neu anfonwch neges drwy RPW Ar-lein a byddwn yn ceisio eich helpu.

### 7. Beth yw polygon a sut ydw i'n creu un trwy ddefnyddio'r Offeryn Mesur?

Mae polygon yn siâp sy'n cynnwys o leiaf tair ochr syth a thair ongl. Wrth

ddefnyddio’r Offeryn Mesur, bydd polygon yn cael ei greu pan fydd y pwyntiau sydd wedi’u gosod yn cysylltu â’i gilydd.

Os ydych chi’n parhau i gael problemau, cysylltwch â’r Ddesg Gymorth Ar-lein ar 0300 062 5004 neu anfonwch neges drwy RPW Ar-lein a byddwn yn ceisio eich helpu.

### 8. Pam mae fy mesuriad yn diflannu o’r sgrin pan fydda i’n dechrau un newydd?

Dim ond un mesuriad y gellir ei ddangos ar y map ar unrhyw adeg, felly os ydych chi eisiau cwblhau mesuriad arall, bydd y mesuriad blaenorol ac unrhyw flychau deialog cysylltiedig yn cael eu clirio o’r sgrin.

Os ydych chi’n parhau i gael problemau, cysylltwch â’r Ddesg Gymorth Ar-lein ar 0300 062 5004 neu anfonwch neges drwy RPW Ar-lein a byddwn yn ceisio eich helpu.

## Dolenni Defnyddiol

**Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) - CTS Ar-lein =** www.bcms.gov.uk
**Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) =** www.gov.uk/defra
**Yr Asiantaeth Taliadau Gwledig (RPA) SPS Ar-lein =** https://www.gov.uk/guidance/funding-for-farmers
**Taliadau Gwledig Ar-lein Llywodraeth yr Alban =** https://www.ruralpayments.org/
**Gwasanaeth Ar-lein yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig =** https://www2.dardni.gov.uk/
**Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru Ar-lein =** https://www.llyw.cymru/mewngofnodi-i-wefo-ar-lein
**Llywodraeth Cymru =** https://www.llyw.cymru/
**Llywodraeth Cymru – Ffermio a Chefn Gwlad =** https://www.llyw.cymru/ffermio-a-chefn-gwlad
**Llywodraeth Cymru – Canllaw i Ffermwyr ar Drawsgydymffurfio =** https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-2024
**Llywodraeth Cymru – TB Buchol =** https://www.llyw.cymru/iechyd-anifeiliaid
**Llywodraeth Cymru – Symudiadau ac Adnabod Anifeiliaid Fferm =** https://www.llyw.cymru/iechyd-anifeiliaid
**Llywodraeth Cymru – Cyswllt Ffermio =** https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy
**Llywodraeth Cymru – Swyddfeydd =** https://www.llyw.cymru/swyddfeydd-llywodraeth-cymru
**Llywodraeth Cymru – Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm** = https://www.llyw.cymru/gwasanaeth-cysylltwyr-fferm
**Gwlad Ar-lein =** https://www.llyw.cymru/cofrestrwch-ar-gyfer-newyddion-amaethyddiaeth-choedwigaeth-gwlad
**Llywodraeth Cymru – Grwpiau Cymorth Gofid Cefn Gwlad =** https://www.llyw.cymru/ffermio-a-chefn-gwlad
**Undeb Amaethwyr Cymru =** https://fuw.org.uk/index.php/cy/
**Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) Ar-lein =** https://www.nfu-cymru.org.uk/cy/
**Cyfoeth Naturiol Cymru =** https://cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/?lang=cy
**System Trwyddedu Symudiadau Anifeiliaid (AMLS)** = https://amls.defra.gov.uk/